Dyma'r canllawiau ar gyfer

# Cronfa Ffilmiau Byrion Beacons Ffilm Cymru Wales 2024

## Cynnwys


Cyflwyniad ....................................................................................3

Dyddiad cau cyflwyno cais ....................................................................4

Cymhwystra ....................................................................................4

  A allaf i wneud cais? ........................................................................4

  A yw fy mhrosiect yn addas? ...............................................................6

  Beth na all Beacons ei ariannu? ...........................................................9

Gwneud cais....................................................................................10

  A allaf gael cymorth gyda fy nghais? ...................................................10

  Sut ydw i'n cyflwyno fy nghais? ..........................................................11

  Canllawiau ar gynllun cynaliadwyedd...................................................12

  Canllawiau ar Gyllideb ......................................................................14

  Canllawiau ar ddeunyddiau ategol ........................................................17

Beth sy'n digwydd ar ôl i mi wneud cais?..................................................19

  Ffurflen monitro amrywiaeth ..............................................................19

  Gwirio cymhwystra ..........................................................................19

  Asesu ...........................................................................................20

  Adborth ........................................................................................21

  Ailgyflwyno....................................................................................22

  Llunio'r rhestr fer a chynnal cyfweliadau ...............................................22

Beth fydd yn digwydd os yw fy mhrosiect yn llwyddiannus? ............................23

  Datblygu .......................................................................................23

Cynhyrchu ........................................................................... 23
Amserlen Beacons ........................................................................... 24
Manylion cyswllt ........................................................................... 24
Amodau cyllido ........................................................................... 25
Telerau Busnes Safonol Ffilm Cymru Wales ........................................ 30

# Cyflwyniad

Ffilm Cymru yw’r asiantaeth ddatblygu ar gyfer y diwydiant ffilmiau yng Nghymru. Rydym yn buddsoddi mewn gwneuthurwyr ffilmiau o Gymru a'u syniadau. Rhown ddiwydiant ffilmiau Cymru ar y map drwy gefnogi ffilmiau annibynnol sy'n anghonfensiynol, uchelgeisiol, a chrefftus. Rydym yn hyrwyddo lleisiau heb gynrychiolaeth ddigonol ac yn gwthio ffiniau'r hyn rydym yn ei ystyried yn fyd ffilm Cymru.

Ni yw partner cyflawni RHWYDWAITH BFI yng Nghymru, sef cydweithrediad rhwng y BFI, sefydliadau ffilm cenedlaethol a lleoliadau diwylliannol blaenllaw ledled y Deyrnas Unedig. Mae RHWYDWAITH BFI yn darparu cyllid ar gyfer ffilmiau byrion a gwaith datblygu cynnar ar ffilmiau nodwedd, datblygiad proffesiynol gyda chefnogaeth y diwydiant a chymorth rhwydweithio i gynhyrchwyr, awduron a chyfarwyddwyr 18 oed a hŷn.

Mae Cronfa Ffilmiau Byrion Beacons (sy'n cael ei galw’n “Beacons” drwy'r canllawiau hyn) yn cael ei rhedeg yn flynyddol gan Ffilm Cymru drwy ffrwd RHWYDWAITH BFI Cymru, mewn partneriaeth â BBC Cymru Wales. Mae'n cynorthwyo i ddatblygu a chynhyrchu ffilmiau naratif gweithredu byw, ffilmiau animeiddiedig, ffilmiau dogfen a ffilmiau hybrid sydd wedi'u bwriadu ar gyfer y sgrin fawr.

Nod y cylch diweddaraf hwn o Beacons yw cynorthwyo a darparu cyllid datblygu i 8 prosiect, a bydd o leiaf 4 ohonynt yn derbyn cyllid cynhyrchu. Bydd cyfanswm dyfarniadau'r prosiect, gan gynnwys cyllid datblygu a chynhyrchu, yn amrywio o £5,000 hyd at uchafswm o £25,000. Mae Beacons hefyd yn darparu cymorth creadigol a strategol i’r prosiectau llwyddiannus yn ystod camau datblygu a chynhyrchu, gan gynnwys cyfleoedd hyfforddiant a mentora i helpu gwneuthurwyr ffilmiau i ddatblygu eu gyrfaoedd.

Mae ffilmiau byrion Beacons a ariannwyd yn flaenorol wedi cael llwyddiant mewn gwyliau ffilm ac wedi ennill gwobrau. Maen nhw

hefyd wedi eu darlledu a'u rhyddhau ar Fideo-ar-Alw. Cewch wybod mwy am ein Ffilmiau Byrion ar wefan Ffilm Cymru a gwyliwch Beacons: Short Films from Wales ar BBC iPlayer.

Os oes unrhyw beth yn aneglur yn y canllawiau hyn, neu os oes gennych ofynion mynediad er mwyn gwneud cais, cysylltwch â ni (gweler 'Alla i gael cymorth gyda fy nghais?').

## Dyddiad cau cyflwyno cais

Y dyddiad cau i gyflwyno ceisiadau i Gronfa Ffilmiau Byrion Beacons eleni yw dydd Gwener 19 Gorffennaf 2024 am 3pm.

## Cymhwystra

### A allaf i wneud cais?

Gallwch wneud cais am arian Beacons os ydych yn bodloni'r canlynol:

- **Mae yna awdur a chyfarwyddwr (neu awdur-gyfarwyddwr) eisoes ynghlwm wrth eich prosiect. RHAID i'r cyfarwyddwr fod wedi'u geni yng Nghymru A/NEU fod yn preswylio yng Nghymru.**

  *Yn dibynnu ar ble mae'r cyfarwyddwr yn preswylio, efallai y bydd cyllid ar gael trwy bartneriaid eraill RHWYDWAITH BFI – edrychwch ar wefan RHWYDWAITH BFI. Efallai y byddwn yn gofyn am gael gweld tystiolaeth gan eich cyfarwyddwr i wneud yn siŵr eu bod yn gymwys.*

  *Rydym yn annog bod yna gynhyrchydd yn rhan o'r tîm ond nid yw hyn yn ofynnol ar gam cyflwyno'r cais. Gall Ffilm Cymru helpu i hwyluso sgyrsiau â chynhyrchwyr ar gyfer prosiectau llwyddiannus. Nid yw cyfarwyddwyr-gynhyrchwyr yn gymwys.*

- **Gall yr awdur, y cyfarwyddwr a'r cynhyrchydd (os oes un ynghlwm) ddangos hanes creadigol yn eu rôl.**

  *Gall hyn fod ym maes ffilm, teledu, theatr neu ffurf arall ar gelfyddyd naratif. Mae'n cynnwys gwaith fel myfyriwr neu waith a grëwyd ar lawr gwlad. Efallai eich bod eisoes wedi creu gwaith gyda chyllid masnachol neu sefydliadol neu beidio.*

  *Byddwn hefyd yn ystyried rhai sydd â phrofiad blaenorol mewn rolau perthnasol eraill, e.e. cyfarwyddwr ffotograffiaeth yn symud i gyfarwyddo, rheolwr cynhyrchu yn symud i gynhyrchu.*

  *Dylech ddangos eich uchelgeisiau o ran creu ffilmiau a'ch ymagwedd at ddilyniant eich gyrfa eich hun fel rhan o'ch cais.*

- **Nid yw'r cyfarwyddwr eto wedi cyfarwyddo ffilm nodwedd sydd wedi'i dosbarthu yn y DU.**

  *Mae hyn yn golygu naill ai'n theatrig neu drwy blatfform mawr ar-lein, lle gwnaed cytundeb dosbarthu ar gyfer y ffilm – yn wahanol i hunanddosbarthu.*

  **Mae'r awdur, y cyfarwyddwr a'r cynhyrchydd (os oes un yn rhan o'r tîm) dros 18 oed ac wedi gorffen addysg amser llawn (neu ar fin cwblhau addysg amser llawn erbyn 1 Awst 2024.)**

  Bydd angen cwblhau unrhyw waith fel myfyriwr yn llawn erbyn 1 Awst 2024, sy'n golygu bod deunydd cwrs, prosiectau terfynol a/neu draethodau hir wedi'u cyflwyno, bod yr holl arholiadau wedi'u cwblhau, ac na fyddwch yn mynd i flwyddyn astudio bellach yn ddiweddarach yn 2024 neu yn 2025.

Noder hefyd:

Nid oes yn rhaid ymgeisio fel cwmni, ond cewch wneud hynny os ydych yn dymuno. Os ydych yn gwneud cais gyda chwmni, rhaid ei fod wedi'i gofrestru ac yn cael ei reoli'n ganolog yn y DU.

Ar gyfer y cylch hwn, caiff cyfarwyddwyr ac awduron-gyfarwyddwyr fod ynghlwm wrth gyfanswm o UN cais Beacons yn unig. Gall awduron a chynhyrchwyr fod ynghlwm wrth nifer o geisiadau Beacons.

Os yw'r awdur, y cyfarwyddwr neu'r cynhyrchydd yn ymwneud â cheisiadau eraill sy'n ceisio arian (neu sydd wedi sicrhau arian) gan y BFI, gan gynnwys RHWYDWAITH BFI, dylech roi gwybod i ni yn eich cais.

Os ydych yn gynhyrchydd sydd â diddordeb mewn gweithio ar ffilm fer Beacons, gallwch anfon eich CV drwy e-bost i network@ffilmcymruwales.com gan nodi 'Beacons - CV Cynhyrchydd' fel pennawd.

## A yw fy mhrosiect yn addas?

Gallwch wneud cais am arian Beacons os ydych yn bodloni'r canlynol:

- **Mae eich prosiect yn ffilm naratif gweithredu byw, ffilm ddogfen, ffilm animeiddiedig neu ffilm hybrid sydd wedi'i bwriadu ar gyfer y sgrin fawr**.

  Rhaid iddi fod yn ffilm ar ei phen ei hun; hynny yw, nid yn rhan o gyfres. Mae ffilmiau byrion sydd wedi'u bwriadu fel prawf o gysyniad ar gyfer ffilmiau nodwedd yn gymwys, ond rhaid iddynt fod â naratif hunangynhwysol.

- **Mae eich prosiect ar gam datblygu.**

  *Ni allwn ariannu prosiectau sydd eisoes yn cael eu cynhyrchu na chynnig cyllid cwblhau.*

  *Os mai ffilm ddogfen yw eich prosiect, efallai eich bod eisoes wedi ffilmio neu ymchwilio i rywfaint o ffilm ond heb ddechrau ar y prif elfennau cynhyrchu eto.*

  *Os mai animeiddiad yw eich prosiect, mae'n bosibl bod eisoes gennych chi ddrafft o animatig (h.y. ddim yn derfynol) ond nad ydych chi wedi dechrau ar waith animeiddio eto.*

  *Cymerwch olwg ar 'Llinell Amser Beacons' isod i gael rhagor o fanylion am amserlenni cynhyrchu ar gyfer y prosiectau a gaiff eu cynorthwyo.*

- **Mae modd i'ch prosiect gael ei gyflawni â chyllideb o rhwng £5,000 a £25,000, neu ag arian pellach wedi'i godi drwy gyllido torfol neu gytundebau trydydd parti.**

  *Rydym yn argymell bod ymgeiswyr yn ystyried lefel eu profiad blaenorol yn ofalus wrth benderfynu ar faint y prosiect a faint o gyllid y dylid gwneud cais amdano. Bydd dyfarniadau ar y lefel uchaf o £25,000 ond yn cael eu cynnig os oes sail resymegol greadigol a strategol glir i hynny.*

  *Ynghlwm wrth gyllid Beacons, mae rhai cyfyngiadau ar gydnabyddiaeth cyd-gyllidwr a chytundeb trwydded gyda BBC Cymru Wales. Os ydych yn rhagweld cyllid sylweddol o ffynonellau eraill rydym yn argymell cysylltu â ni i drafod hyn cyn gwneud cais.*

- **Mae eich prosiect hyd at uchafswm o 15 munud o hyd.**

  *Rydym yn disgwyl rhywfaint o amrywio o ran hyd. Er enghraifft, mae animeiddiadau yn debygol o fod yn fyrrach oherwydd costau cynhyrchu uchel. Ac efallai y bydd y rhai nad ydyn nhw wedi gwneud gwaith sgrin o'r blaen yn dymuno rhoi cynnig ar eu syniadau mewn darn byrrach.*

- **Mae eich prosiect yn gymwys i gael ei ystyried yn Brydeinig**

  *Naill ai drwy un o'r Profion Diwylliannol ar gyfer Ffilmiau, un o Gytuniadau Cydgynhyrchu swyddogol y Deyrnas Unedig NEU'R Confensiwn Ewropeaidd ar Gydgynhyrchu Sinematig.*

- **Byddai eich prosiect yn gallu derbyn tystysgrif BBFC nad yw'n fwy cyfyngol na BBFC '18'.**

- **Rydych chi neu'ch tîm yn berchen ar, wedi sicrhau neu mae gennych hawl gontractiol i sicrhau'r hawliau gofynnol yn y gwaith presennol (e.e. stori fer rydych chi'n ei haddasu).**

Yn ogystal, mae Beacons yn canolbwyntio ar brosiectau sy'n bodloni un neu fwy o **Flaenoriaethau Cyllido Ffilm Cymru**, fel a ganlyn:

- Gwneuthurwyr ffilmiau o Gymru ar gam cynnar yn eu gyrfaoedd.
- Ffilmiau sy'n cael eu harwain gan wneuthurwyr ffilmiau heb gynrychiolaeth ddigonol a/neu sy'n siarad â chynulleidfaoedd nad ydynt yn draddodiadol yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol gan ffilmiau nodwedd, gan gynnwys ffilmiau yn y Gymraeg.[1]

[1] I gael rhagor o wybodaeth am ein hymagwedd at Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, darllenwch ein Cynllun Gweithredu Ffilm i Bawb

- Ffilmiau â gwerth artistig cryf, sy'n mentro ar dalent, cynnwys neu ffurf y byddai'r sector masnachol yn ei chael yn anoddach eu cefnogi.[2]
- Ffilmiau sy'n darlunio Cymru a diwylliant Cymru mewn ffyrdd newydd ac anghonfensiynol.

Nid oes gofyn i'r storïau fod yn seiliedig yng Nghymru na chynnwys pwnc sy'n ymwneud â Chymru. Gall ffilmiau fod yn Saesneg, Cymraeg, Saesneg a Chymraeg, neu gallant gynnwys ieithoedd lleiafrifol eraill sy'n adlewyrchu amrywiaeth ddiwylliannol Cymru a'r DU, gan gynnwys Iaith Arwyddion Prydain.

## Beth na all Beacons ei ariannu?

Ni all Beacons ariannu'r canlynol:

- Gwaith sydd â'r bwriad pennaf o ddal ffurf arall ar gelfyddyd, fel ffilmio theatr, dawns, y gair llafar / barddoniaeth, digwyddiadau chwaraeon neu gerddoriaeth
- Gosodiad neu ddelwedd symudol gan artist
- Gwaith nad yw'n glyweledol yn bennaf
- Gwaith sydd â'r bwriad pennaf o'i ddarlledu ar y teledu

Mae ffynonellau eraill o gyllid ar gael i gefnogi'r uchod gan gynnwys gan ddarlledwyr a Chyngor Celfyddydau Cymru.

[2] Mae hon yn egwyddor allweddol o gyllid ffilmiau'r Loteri

# Gwneud cais

## A allaf gael cymorth gyda fy nghais?

Rydym yn argymell cymryd golwg yn gyntaf ar ein Cwestiynau Cyffredin a'n hadnoddau i wneuthurwyr ffilmiau byrion drwy dudalen Beacons: cyllid ar gyfer ffilmiau byrion.

Gall yr ymgeiswyr hynny a fyddai'n elwa o gael canllawiau pellach wedi'u teilwra archebu lle mewn sesiynau unigol gyda'n tîm. Mae manylion ar gael ar ein tudalen we Newyddion a Digwyddiadau neu gallwch ddilyn RHWYDWAITH BFI Cymru ar X i gael y newyddion diweddaraf.

Ar gyfer ymgeiswyr sydd â gofynion mynediad, er enghraifft unigolion sy'n F/fyddar, â nam ar eu clyw, yn Anabl, yn niwroamrywiol neu â nam ar eu golwg, mae cymorth pellach ac addasiadau ar gael. Er enghraifft, gallwn dalu am gostau darparu'r canllawiau mewn fformatau eraill (e.e. print bras), dehonglydd BSL ar gyfer cyfarfod gyda ni, cymorth ysgrifennydd i ymgeiswyr dyslecsig, neu weithiwr cymorth os oes angen.

Cysylltwch â ni i drafod eich gofynion yn gyfrinachol. Cawn ein harwain gennych chi. (Gweler y Manylion Cyswllt isod).

network@ffilmcymruwales.com

Gallwch hefyd gysylltu â ni dros y ffon ar 02922 676711.

Bydd addasiadau rhesymol yn cael eu gwneud yn ôl yr angen er mwyn i ymgeiswyr ar y rhestr fer gael cyfweliad, yn ogystal ag unrhyw gyfarfodydd a gweithdai pellach pe byddent yn cael eu dewis i dderbyn dyfarniad datblygu a/neu gynhyrchu. (Gweler hefyd yr adran 'Canllawiau ar Gyllideb' i gael manylion am sut i gyllidebu ar gyfer costau mynediad ar eich cynhyrchiad).

## Sut ydw i'n cyflwyno fy nghais?

Gall y ceisiadau gael eu cyflwyno naill ai'n Gymraeg neu'n Saesneg. I ymgeisio, lawrlwythwch a llenwch ffurflen gais Beacons a'i hanfon drwy e-bost i network@ffilmcymruwales.com erbyn y dyddiad cau.

Mae'r ffurflen gais yn gofyn am y canlynol:

- Manylion cyswllt yr ymgeisydd arweiniol
- Gwybodaeth sylfaenol am y prosiect
- Manylion unrhyw gyllid cyd-ariannu posibl arall ar gyfer y prosiect
- Gwybodaeth am y tîm craidd ac unrhyw unigolion eraill sydd ynghlwm wrth y prosiect ar hyn o bryd
- Datganiad Personol gan y cyfarwyddwr
- Cynllun Cynaliadwyedd (gweler y canllawiau isod)
- Cyllideb (gweler y canllawiau isod)
- Deunyddiau Ategol (gweler y canllawiau isod)

Mae rhai o'r cwestiynau'n cynnwys opsiynau i gyflwyno atebion mewn ffurf ysgrifenedig, fideo neu nodyn llais. Fel arall, fe allwch chi ymateb i'r cwestiynau naratif yn y ffurflen drwy alwad fideo neu alwad ffôn fyw gyda'n tîm. Dylai hyn gael ei drefnu ymlaen llaw cyn y dyddiad cau. Bydd yr alwad hon yn cael ei recordio a'i rhannu gyda'n panel o aseswyr.

Fel darparwr arian cyhoeddus ac arian y Loteri Genedlaethol, mae'n rhaid i ni sicrhau nad ydym yn rhoi mantais annheg i unrhyw ymgeiswyr. Mae hynny'n golygu na allwn asesu prosiectau'n anffurfiol a rhaid i chi gyflwyno'ch cais drwy'r broses ymgeisio sy'n cael ei disgrifio uchod.

# Canllawiau ar gynllun cynaliadwyedd

Mae Ffilm Cymru yn mynnu bod pob cynhyrchiad a ariannwn yn cymryd camau sy'n cefnogi sector sgrin cynaliadwy. Gyda hyn mewn golwg, fel rhan o'ch cais gofynnwn i chi amlinellu cynllun cynaliadwyedd. Os bydd eich cais yn llwyddiannus, gall Ffilm Cymru eich helpu i ddatblygu a chyflawni'r cynllun hwn.

Isod fe welwch drosolwg o'r pedwar maes y gall eich cynllun cynaliadwyedd ymdrin â nhw. Nid oes rhaid i'ch cynllun ymdrin â phob maes yn gynhwysfawr — fodd bynnag, yn y man lleiaf, rhaid iddo ymdrin â chynaliadwyedd amgylcheddol ac amrywiaeth a chynhwysiant.

Rydym yn eich annog i ystyried sut mae'r meysydd yn croestorri. Er enghraifft, efallai y byddwch yn penderfynu eich bod am gynnig lleoliad dan hyfforddiant, ond byddai'n allweddol plethu ystyriaethau amgylcheddol ac amrywiaeth a chynhwysiant i'r cynllun hwnnw (er enghraifft ystyried recriwtio'n lleol a sicrhau bod rolau yn cael eu hysbysebu mewn iaith glir).

## 1. Cynaliadwyedd amgylcheddol

Rydym eisiau clywed am unrhyw syniadau arloesol sydd gennych i gyfyngu ar eich effaith amgylcheddol, neu i gael effaith gadarnhaol. Boed hynny drwy gynrychiolaeth ar y sgrin (e.e. themâu / naratifau), neu sut rydych chi'n ymwneud â lleoliadau a chymunedau (e.e. cynnwys diwrnodau gwirfoddoli neu ddysgu ar gyfer y cast a'r criw) a/neu sicrhau cyfraniad i systemau'r economi gylchol (e.e. defnyddio eitemau ail law sydd wedyn yn cael eu hailddefnyddio).

Mae'n ofynnol hefyd i bob prosiect sy'n derbyn ein cyllid ennill ardystiad BAFTA Albert. Mae'r manylion llawn i'w gweld ar dudalen Production Handbook ar wefan albert BAFTA.

Gallwch gael golwg ar Adnoddau Cymru Werdd ar ein gwefan. I gael mwy o gyd-destun ar ymagwedd Ffilm Cymru at gynaliadwyedd amgylcheddol, gweler ein Polisi Amgylcheddol.

## 2. Amrywiaeth a chynhwysiant

Dylech feddwl am sut y byddwch yn cefnogi amrywiaeth a chynhwysiant wrth weithio ar eich ffilm fer. Rydym yn argymell eich bod yn ystyried cynrychiolaeth, o ran eich tîm creadigol ac ar y sgrin, yn ogystal â'r ffordd y gallech gastio a chyflogi (e.e. galwad agored), cynnal y cynhyrchiad (e.e. datganiadau mynediad) a/neu ymgysylltu â chynulleidfaoedd amrywiol (e.e. capsiynau creadigol, BSL, dangosiad prawf).

Gweler hefyd y 'Canllawiau ar Gyllideb' isod i gael manylion ar sut i gyllidebu ar gyfer costau disgwyliedig ar gyfer gofynion mynediad personol unrhyw un o'ch tîm craidd, cast neu griw wrth ddatblygu a chynhyrchu eich ffilm fer.

Noder y bydd gofyn i'r Cynhyrchydd gasglu data Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ar bob aelod o'r cast a'r criw (uwchben ac islaw'r llinell) gan ddefnyddio dolen i arolwg anhysbys wedi'i darparu gan Ffilm Cymru. Bydd gofyn i'r prosiectau llwyddiannus hefyd ddarparu deunyddiau mynediad uwch ar gyfer eu ffilm, gan gynnwys disgrifiad sain ac isdeitlau i bobl trwm eu clyw.

I gael mwy o gyd-destun ar ymagwedd Ffilm Cymru at amrywiaeth a chynhwysiant, cymerwch olwg ar ein Cynllun Gweithredu Ffilm i Bawb.

## 3. Sgiliau a hyfforddiant

Rydym yn eich annog i ystyried sgiliau a hyfforddiant fel rhan o'ch prosiect. Er enghraifft, efallai y byddwch yn penderfynu cynnig lleoliad cysgodi neu hyfforddai, neu sefydlu gweithdy ar gyfer y

gymuned leol. Ar gyfer prosiectau llwyddiannus, gall Ffilm Cymru helpu i strwythuro a recriwtio ar gyfer y cyfleoedd hyn drwy ein rhaglenni ein hunain a'n cysylltiadau â darparwyr hyfforddiant eraill yng Nghymru.

4. **Entrepreneuriaeth**

Rydym yn awyddus i helpu cynhyrchwyr i archwilio gwahanol ffyrdd o gyrraedd, profi a datblygu gwahanol gynulleidfaoedd i'w gwaith a manteisio'n ehangach ar eu heiddo deallusol, gan gryfhau eu modelau busnes. Er enghraifft, efallai y gallech ystyried cynhyrchu adnoddau dysgu fel rhan o'ch cynhyrchiad at ddefnydd addysgol. Neu efallai eich bod yn ystyried cynnal arddangosfa ffotograffiaeth ar yr un adeg â rhyddhau eich ffilm ddogfen.

## Canllawiau ar Gyllideb

Gallwch wneud cais am ddyfarniad Beacons o rhwng £5,000 a £25,000.

Rydym yn argymell eich bod yn ystyried eich lefel o brofiad blaenorol yn ofalus wrth benderfynu ar faint y prosiect a faint o gyllid y dylid gwneud cais amdano. Dim ond pan fo sail resymegol greadigol a strategol glir y caiff dyfarniadau eu gwneud ar yr uchafswm o £25,000.

Dylai eich cyllideb gynnwys yr holl gostau disgwyliedig, gan ddefnyddio amcangyfrifon os oes angen. Mae'n rhaid i chi gynnwys y canlynol:

- **Costau datblygu'r prosiect** (e.e. ffioedd ar gyfer yr awdur, y cyfarwyddwr a'r cynhyrchydd, ffioedd mentora, teithio/llety ar gyfer taith ymchwil, *recce* lleoliad)

*Mae gan Beacons gam datblygu wedi'i ymgorffori'n rhan ohono. Mae'r dyfarniadau datblygu hyd at uchafswm o £1,000 fesul prosiect, sydd wedi'i neilltuo o fewn cyfanswm dyfarniad y prosiect o hyd at £25,000 (pe bai'r prosiect yn cael ei ddewis i dderbyn dyfarniad cynhyrchu). Rhaid i hyn gael ei adlewyrchu yn eich cyllideb.*

- **Unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â chael hawliau sylfaenol i'r prosiect os yw'n berthnasol** (e.e. yr hawlddewis ar gyfer stori fer rydych yn ei haddasu)

- **Clirio'r holl hawliau mewn ffilm o'r fath**, gan gynnwys cerddoriaeth ledled y byd ym mhob cyfrwng am byth (gan gynnwys ffioedd defnyddio, ffioedd ail-ddangos a gweddilliol)

- **Cyflogau i'r holl gast a'r criw ar gyfraddau'r Cyflog Byw Go Iawn neu uwch**

  *Ni chaniateir profiad gwaith di-dâl oni bai bod yr unigolyn mewn addysg amser llawn a/neu'n cysgodi yn hytrach nag yn cwblhau tasgau. Gallai eithriadau gael eu gwneud pe byddai gwaith â thâl yn effeithio'n negyddol ar fudd-daliadau unigolyn anabl.*

  *Disgwyliwn weld ffioedd cydradd ar draws graddau ac ar draws adrannau.*

- **Ffioedd yr awdur, y cyfarwyddwr a'r cynhyrchydd**

  *Gallai'r ffioedd gael eu talu'n rhannol neu'n llawn gan y dyfarniad Datblygu (gweler uchod) a dylent fod yn gymesur â lefel cyllideb gyffredinol y prosiect. Yn y man lleiaf, dylai'r ffioedd hyn fod yn unol â Phenaethiaid Adrannau eraill ar y prosiect, neu'n unol â chyflogau cast a chriw ar gyfer diwrnodau*

*saethu, pa un bynnag sydd uchaf. Ni ellir hepgor ffioedd awdur, cyfarwyddwr a chynhyrchydd ar unrhyw adeg.*

- **Yswiriant cynhyrchu**

- **2 x Pecyn Sinema Digidol (DCPs) Heb eu Hamgryptio** i'w darparu ar yriannau caled neu USBs, ar gyfer arddangos eich ffilm

- **Deunyddiau mynediad uwch**, gan gynnwys disgrifiad sain ac isdeitlau i bobl trwm eu clyw. *Gall amcangyfrifon o gostau'r gwaith yma amrywio'n sylweddol felly mae'n bwysig chwilio o gwmpas mor gynnar â phosibl.*

- **Deunyddiau cyhoeddusrwydd**, gan gynnwys lluniau llonydd o ansawdd uchel

- **Costau cyflwyno'ch ffilm i wyliau**

- **Llinell 10% wrth gefn**

- **Darpariaeth gwrthbwyso carbon o o leiaf 0.1% o gyfanswm y gyllideb er mwyn bodloni ardystiad albert BAFTA**

Gallwch hefyd restru **costau mynediad** fel eitem linell ar wahân yn eich cyllideb. Ni fydd y costau hyn yn cyfrif tuag at uchafswm y dyfarniad a gallant gynnwys:

- **Unrhyw gostau rydych chi'n eu rhagweld ar gyfer gofynion mynediad personol unrhyw un o'ch tîm craidd, cast neu griw** wrth ddatblygu a chynhyrchu eich ffilm fer.

  *Gallai hyn fod yn ofynion penodol i bobl sy'n anabl neu sydd â chyflwr iechyd corfforol neu feddyliol, neu sydd â chyfrifoldebau gofalu. Er enghraifft, dehonglydd BSL, costau trafnidiaeth neu*

*lety ychwanegol i aelodau anabl o'r tîm, cynorthwyydd personol i aelod o'r tîm sydd ag anabledd dysgu neu gyflwr iechyd meddwl, neu gostau gofal plant.*

Noder hefyd:
Dylai pob eitem linell fod yn rhesymol – ni allwn, er enghraifft, dalu am deithio neu lety dosbarth cyntaf.

Ni all Ffilm Cymru roi arian tuag at wariant sydd eisoes wedi digwydd (ariannu ôl-weithredol) na disodli arian arall sydd wedi'i ymrwymo / sydd ar gael i'r prosiect (ariannu amnewidiol).

Nid yw TAW yn daladwy ar unrhyw ddyfarniadau Beacons. Mae cyfanswm y cyllid grant sy'n cael ei ddarparu y tu allan i gwmpas TAW ac yn cynnwys unrhyw drethi a all fod yn daladwy mewn cysylltiad â rhoi, derbyn neu ddefnyddio dyfarniad Beacons. Bydd angen i gynhyrchwyr sy'n derbyn cyllid Beacons dynnu unrhyw drethi o'r fath allan o'r dyfarniad ac ni fydd gofyn i Ffilm Cymru dalu unrhyw symiau ychwanegol mewn perthynas â threthi o'r fath o dan unrhyw amgylchiadau.

## Canllawiau ar ddeunyddiau ategol

Dylai'r deunyddiau ategol canlynol gael eu darparu fel dolen storio ar-lein (e.e. Google Drive, Dropbox) oddi mewn i'r ffurflen gais:

- **Ar gyfer ffuglen gweithredu byw – sgript ffilm fer** yn fformat safonol y diwydiant (dogfen .pdf neu Word)
  **Ar gyfer ffilm ddogfen – ymdriniaeth** yn amlinellu beth sydd i'w ddisgwyl o'r stori a'r cymeriadau (dogfen .pdf neu Word)
  **Ar gyfer animeiddiad – sgript ffilm fer** (dogfen .pdf neu Word) **NEU fwrdd stori**

*Fel canllaw bras, fel arfer mae un dudalen o sgript wedi'i fformatio yn cyfateb i funud o amser sgrin. Felly rydyn ni fel arfer yn disgwyl i sgriptiau fod hyd at uchafswm o 16 tudalen, gan gynnwys y dudalen deitl.*

*Os nad yw ffurf eich prosiect yn addas ar gyfer unrhyw un o'r uchod (prosiect ffilm hybrid, er enghraifft), neu os oes gennych ddull arall o fynegiant yr hoffech ei ddefnyddio (am eich bod yn niwroamrywiol, er enghraifft, ac yn gweithio'n fwy gweledol), gallwch gyflwyno'ch syniadau yn eich dewis gyfrwng.*

- **CVs a/neu fywgraffiadau byr** ar gyfer yr awdur, y cyfarwyddwr a'r cynhyrchydd (os oes un ynghlwm). Rhowch ddolenni IMDB os yw'n berthnasol.

- **Enghraifft/enghreifftiau perthnasol o waith blaenorol gan y cyfarwyddwr**
  Rhowch o leiaf un enghraifft i ddangos galluoedd y cyfarwyddwr, yn ddelfrydol drwy ddolen (e.e. Vimeo, YouTube).

  *Rhowch gyfrineiriau lle y bo angen – ni fydd dolenni diffygiol neu anghyflawn yn cael eu gwylio. Dylai'r enghreifftiau fod yn rhai hyd llawn, nid* showreels. *Ni cheir cyflwyno DVDs, oni bai bod Ffilm Cymru yn cytuno ar hynny.*

  *Os nad yw'r cyfarwyddwr wedi gwneud unrhyw waith sy'n bodoli hyd yma fel recordiad, gofynnwn i chi rannu unrhyw ddolenni sydd ar gael i wybodaeth neu adolygiadau (e.e. ar gyfer sioe theatr neu berfformiad).*

- **Copïau o gytundebau hawliau sylfaenol neu gytundebau cyllido sy'n ymwneud â'r prosiect (os yw'n berthnasol).** e.e. cytundebau hawlddewis os yw'r ffilm yn addasiad o waith sydd eisoes yn bodoli, cynnig cyllid gan ariannwr arall neu dystiolaeth o gymorth mewn nwyddau.

Efallai y bydd eich cais yn cael ei gryfhau drwy ddarparu unrhyw ddeunyddiau creadigol eraill sydd ar gael fel **bwrdd naws neu rîl, *pitch deck*, darn o ffilm brawf, brasluniau, neu ddelweddau o brototeipiau ar gyfer pypedau/setiau (e.e. ar gyfer animeiddiad).**

Caniatewch ddigon o amser i gwblhau eich cais gan ymgynghori â'n tîm, a gwiriwch ef yn ofalus cyn ei gyflwyno. Caiff eich cais ei ystyried yn anorffenedig hyd nes bod yr holl eitemau y gofynnir amdanynt wedi'u cyflwyno.

Rydym yn croesawu adborth ar ein proses ymgeisio a sut y gallem ei gwella. Os hoffech roi adborth adeiladol, cysylltwch â ni (gweler 'Manylion cyswllt').

## Beth sy'n digwydd ar ôl i mi wneud cais?

### Ffurflen monitro amrywiaeth

Byddwch yn derbyn e-bost o gadarnhad o fewn un wythnos i'r dyddiad cau. Bydd yr e-bost yn rhoi cyfeirnod i chi a dolen i'n ffurflen monitro amrywiaeth. Mae'n rhaid i bob aelod o dîm eich prosiect (awdur, cyfarwyddwr a chynhyrchydd arweiniol os oes un ynghlwm) lenwi'r ffurflen cyn y gall eich cais gael ei asesu.

Mae dewis 'gwell gen i beidio â dweud' i bob cwestiwn. Mae'r data yn cael ei gasglu'n ddienw a bydd yn cael ei ddefnyddio'n unig er mwyn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010, wrth ddatblygu ein Cynllun Gweithredu Ffilm i Bawb, ac i adrodd i'n rhanddeiliaid lle mae hyn yn ofyniad contractiol.

### Gwirio cymhwystra

Os na fydd eich cais yn gymwys, rhown wybod i chi. Os na fydd eich cais yn gyflawn, rhown gyfnod penodol o amser i chi ddarparu

unrhyw fanylion sydd ar goll cyn i’r cais gael ei asesu. Gallem hefyd ofyn am wybodaeth neu ddeunyddiau pellach gennych. Os yw eich cais yn gymwys i gael ei gyllido ac yn gyflawn, bydd yn cael ei asesu.

## Asesu

Bydd pob cais yn cael ei adolygu gan o leiaf 2 asesydd gwahanol. Bydd ein panel asesu yn cynnwys aelodau o staff tîm datblygu, cynhyrchu a sgiliau Ffilm Cymru. Efallai y byddwn hefyd yn defnyddio ymgynghorwyr allanol er mwyn ehangu'r arbenigedd a'r profiad bywyd sy'n bwydo i mewn i’r asesiadau.

Rydym yn defnyddio'r meini prawf canlynol i asesu ceisiadau Beacons:

- Ansawdd a gwreiddioldeb y prosiect a gallu'r tîm i wireddu eu gweledigaeth greadigol.

- A yw'r prosiect yn ymateb i un neu fwy o Flaenoriaethau Cyllido Ffilm Cymru (gweler 'A yw fy mhrosiect yn addas? ').

- A fydd y prosiect yn cael effaith sylweddol ar yrfaoedd gwneuthurwyr ffilm o Gymru.

- A fydd y prosiect yn ymarferol o ran cyllideb, amserlen ac ystyriaethau eraill.

- Addasrwydd y prosiect i dderbyn cyllid Ffilm Cymru. A ellid ei ariannu'n llawn gyda ffynonellau eraill o gyllid cyhoeddus neu breifat? A yw'r prosiect yn gallu talu pawb am eu gwaith heb fod gofyn i ni ariannu’n ôl-weithredol?

- Y potensial i gefnogi sector sgrin cynaliadwy yng Nghymru, gan ymdrin â chynaliadwyedd amgylcheddol, amrywiaeth a chynhwysiant, sgiliau a hyfforddiant, ac entrepreneuriaeth.

- Cydbwysedd cyffredinol ein buddsoddiadau. Byddwn yn ystyried a yw'r prosiect yn ychwanegiad nodedig i lechen gytbwys o brosiectau sy'n cael eu cynorthwyo gan Ffilm Cymru.

Bydd y broses asesu hefyd yn ystyried sut rydych wedi rheoli unrhyw gyllid blaenorol a gawsoch gan Ffilm Cymru.

## Adborth

Rydym yn derbyn llawer mwy o geisiadau nag y gallwn eu cynorthwyo. Bydd adborth byr ar ffurf y prif elfennau yn cael ei ddarparu i bob ymgeisydd. Serch hynny, ni fydd modd i ni roi adborth manylach ar brosiectau sydd heb eu dethol i'r rhestr fer.

Dyma rai o'r rhesymau cyffredin am wrthod ceisiadau:

- Mae diffyg gwreiddioldeb a/neu uchelgais sgrin fawr i'r syniad.
- Mae'r stori, genre, arddull, naws a/neu'r weledigaeth greadigol arfaethedig yn aneglur.
- Byddai'r syniad yn fwy addas i fformat arall (e.e. drama, cyfres ar y we, teledu)
- Byddai'r prosiect yn gweddu'n well ar gyfer ffynonellau eraill o gyllid (e.e. Cyngor Celfyddydau Cymru)
- Nid yw'r ffilm yn ymarferol o fewn y gyllideb neu'r llinell amser
- Nid yw'r tîm ar y lefel gywir i elwa'n llawn o gymorth Beacons

Nid oes unrhyw rwymedigaeth ar yr ymgeisydd i weithredu ar unrhyw adborth y mae Ffilm Cymru yn ei roi, ac nid yw gweithredu ar

yr adborth hwnnw yn rhoi sicrwydd y bydd cyllid yn cael ei ddarparu yn y dyfodol.

## Ailgyflwyno

Nid oes modd ailgyflwyno ceisiadau a wrthodwyd yn flaenorol heb gymeradwyaeth Ffilm Cymru. Dylai ceisiadau sy’n cael eu hailgyflwyno ddangos newidiadau sylweddol sy’n mynd i’r afael ag unrhyw adborth blaenorol gan Ffilm Cymru: er enghraifft, ailysgrifennu’n sylweddol, neu newid cynhyrchydd.

Os ydych yn bodloni’r maen prawf hwn ac yn cyflwyno cais newydd ar gyfer yr un prosiect, mae’n rhaid i chi nodi elfennau diwygiedig y prosiect yn glir yn y cais.

Os yw eich prosiect eisoes wedi'i wrthod gan Beacons ddwywaith, ni chewch ailgyflwyno'r un prosiect eto.

## Llunio’r rhestr fer a chynnal cyfweliadau

Gweler llinell amser Beacons isod i gael syniad pryd y gallwch ddisgwyl clywed gennym yn dilyn eich cais.

Bydd ymgeiswyr sydd wedi’u dewis i’r rhestr fer (15-20 o brosiectau fel arfer) yn cael eu gwahodd i gyfweliad gyda phanel o Ffilm Cymru a BBC Cymru Wales. Mae hyn yn gyfle i drafod gweledigaeth y tîm ar gyfer y prosiect ac ateb unrhyw gwestiynau sy’n codi.

Yn dilyn y cyfweliadau, bydd y timau’n cael eu hysbysu a yw eu prosiect wedi’i ddethol i dderbyn dyfarniad datblygu.

# Beth fydd yn digwydd os yw fy mhrosiect yn llwyddiannus?

## Datblygu

Mae pob prosiect sy'n cael ei ddewis i dderbyn dyfarniad datblygu yn ymrwymo i gytundeb datblygu gyda Ffilm Cymru ac yn derbyn cyllid tuag at gostau datblygu i weithio ar eu prosiectau dros gyfnod o 10-12 wythnos.

Mae Ffilm Cymru a BBC Cymru Wales yn darparu adborth golygyddol a chymorth strategol i arwain datblygiad y prosiectau. Rydym hefyd yn hwyluso hyfforddiant pellach a chymorth datblygu proffesiynol. Bydd disgwyl i chi gymryd rhan mewn hyfforddiant grŵp a/neu sesiynau gweithdy fel rhan o'ch dyfarniad.

Yn dilyn y cam datblygu, bydd y timau'n ailgyflwyno eu prosiectau i'w hystyried gan y panel. Gall y panel ofyn am ragor o wybodaeth ar y cam yma. Bydd y panel yn anelu i wneud ei benderfyniad o fewn pythefnos.

## Cynhyrchu

Os ydych yn llwyddiannus, bydd eich cynhyrchydd / cwmni cynhyrchu yn cychwyn ar gytundeb cyllid cynhyrchu â Ffilm Cymru a BBC Cymru Wales sy'n nodi telerau ac amodau llawn y cyllid cynhyrchu. Mae hyn yn cynnwys llinellau amser, elfennau i'w cyflawni, elfennau i'w cymeradwyo a'r rhandaliadau. Cadwn yr hawl i gynnig llai na'r swm y gofynnir amdano, mewn ymgynghoriad â phob tîm.

Bydd y timau llwyddiannus yn parhau i dderbyn cymorth creadigol a strategol oddi wrth Ffilm Cymru a BBC Cymru Wales drwy gydol y broses o greu'r ffilm.

Mae gan Ffilm Cymru a BBC Cymru Wales gymeradwyaeth dros brif elfennau'r ffilm, gan gynnwys unrhyw gyllid partneriaeth, y criw, y gyllideb, yr amserlen, y sgript / bwrdd stori / animateg / ymdriniaeth derfynol, toriad terfynol y ffilm a'r rhestr gydnabyddiaeth. Eich cyfrifoldeb chi fydd sicrhau eich bod yn bodloni eich rhwymedigaethau contractiol, gan ganiatáu amser ar gyfer adolygu, adborth a chymeradwyo.

Fel rhan o'u buddsoddiad yn y ffilmiau, mae BBC Cymru Wales yn derbyn hawliau i ddefnyddio a darlledu'r ffilmiau ar unrhyw rai o'i wasanaethau cyhoeddus yn y DU ac Iwerddon (gweler 'Amodau Cyllido' isod).

## Amserlen Beacons

Noder y gallai'r dyddiadau newid.

- Dydd Gwener 19 Gorffennaf 2024 am 3pm – Dyddiad Cau Derbyn Ceisiadau
- Erbyn 30 Medi 2024 – Pob ymgeisydd yn cael gwybod a ydyn nhw wedi'u dewis i'r rhestr fer
- w/c 30 Medi 2024 – Cyfweliadau ag ymgeiswyr y rhestr fer
- Hydref — Rhagfyr 2024 — Cyfnod datblygu (10-12 wythnos)
- Erbyn diwedd mis Ionawr 2025 — Penderfyniadau ynghylch y dyfarniadau cynhyrchu
- Gwanwyn/Haf/Hydref 2025 – Cynhyrchu ac ôl-gynhyrchu
- Erbyn diwedd mis Ionawr 2026 — Cyflwyno'r ffilmiau byrion

## Manylion cyswllt

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau, os hoffech chi drefnu i wneud cais drwy alwad fideo neu alwad ffôn fyw, neu os hoffech

drafod gofynion mynediad yn gyfrinachol, cysylltwch â: network@ffilmcymruwales.com

Gallwch hefyd gysylltu â ni dros y ffon ar 02922 676711.

Os hoffech dderbyn y wybodaeth ddiweddaraf am gynlluniau ariannu Ffilm Cymru, digwyddiadau hyfforddiant a chyfleoedd eraill, tanysgrifiwch i'n rhestr bostio drwy ein gwefan.

## Amodau cyllido

Os bydd eich cais am gyllid yn llwyddiannus yna bydd yr amodau canlynol yn berthnasol i'ch dyfarniad cynhyrchu. Bydd y rhain yn cael eu nodi'n fanylach yn eich cytundeb cyllid cynhyrchu.

1. Bydd y dyfarniad ar ffurf grant na ellir ei adennill.

2. Bydd gofyn i chi roi cydnabyddiaeth i Ffilm Cymru, RHWYDWAITH BFI gyda chymorth y Loteri Genedlaethol, a BBC Cymru Wales, mewn unrhyw ddeunyddiau llafar ac ysgrifenedig/cyhoeddedig sy'n ymwneud â'r prosiect gan gynnwys y ffilm ei hun (mewn cydnabyddiaeth agor a chloi) gan gynnwys defnyddio logos FfCW, RHWYDWAITH BFI, y Loteri Genedlaethol a BBC Cymru Wales ac fel y gellir nodi ymhellach yng nghytundeb y cyllid cynhyrchu. Bydd yr unig gydnabyddiaeth a fydd yn rhagflaenu'r ffilm yn y ffurf ganlynol: "Ffilm Cymru Wales a RHWYDWAITH BFI mewn cydweithrediad â BBC Cymru Wales yn cyflwyno". Ni chaniateir logos arianwyr eraill.

3. Ymgymeriad cyfreithiol gennych chi eich bod yn berchen ar yr holl hawliau, teitl a buddiant yn y gwaith sy'n cael ei ariannu a bod yr holl ddeunyddiau trydydd parti sy'n cael eu hymgorffori yn y prosiect wedi'u clirio, neu bod modd eu clirio, i'w defnyddio yn y prosiect ledled y byd, ym mhob cyfrwng am

byth. Bydd angen i chi ddarparu tystiolaeth o hyn cyn i ni ddarparu unrhyw gyllid cynhyrchu (e.e. cytundebau awdur a chyfarwyddwr ynghyd ag unrhyw gytundebau hawliau sylfaenol i waith sy’n bodoli eisoes sy'n cael ei addasu). Os yw dogfennau cadwyn y teitl mewn iaith heblaw am y Gymraeg neu’r Saesneg, bydd gofyn i chi ddarparu cyfieithiad ardystiedig yn Gymraeg neu Saesneg. Bydd gofyn i chi glirio hawliau byd-eang ym mhob cyfrwng am byth gan bob unigolyn neu sefydliad sy'n cyfrannu at y prosiect, neu y mae eu deunydd i'w gynnwys yn y prosiect (heblaw am hawliau perfformio cerddoriaeth yn cyhoeddus yn unig).

4. Bydd ar Ffilm Cymru angen cymeradwyaeth benodol dros eich prosiect gan gynnwys cymeradwyaeth dros yr holl ddogfennau cynhyrchu ac ariannol allweddol sy’n cael eu paratoi mewn perthynas â'r prosiect. Bydd y cyllid cynhyrchu yn cael ei dalu mewn rhandaliadau (i'w amlinellu yng nghytundeb y cyllid cynhyrchu) ar ôl darparu a chymeradwyo'r elfennau canlynol:
    i. cyllideb, amserlen gynhyrchu a chynllun cynaliadwyedd
    ii. asesiad risg ar gyfer y prosiect
    iii. copïau o holl bolisïau yswiriant cynhyrchu ar gyfer y prosiect yn enwi BFI a Ffilm Cymru fel partïon yswiriedig ychwanegol a chadarnhad bod y premiymau perthnasol o fewn y gyllideb
    iv. sgript derfynol, sgript-ymdriniaeth neu animateg
    v. cadarnhad o griw a chast allweddol
    vi. tystiolaeth bod unrhyw gyllid arall sydd ei angen i gyflawni eich cyllideb derfynol wedi'i sicrhau, gan gynnwys copïau o'r cytundebau wedi’u cyflawni’n llawn y mae cyllid arall o’r fath yn cael ei ddarparu oddi tanynt
    vii. unrhyw ddogfennau neu hysbysiadau eraill fel sy'n rhesymol ofynnol gan Ffilm Cymru

5. Caiff rhandaliad terfynol y gweddill ei dalu ar ôl cyflwyno a chymeradwyo'r holl ddeunyddiau dosbarthu gofynnol i Ffilm

Cymru a BBC Cymru Wales. Eich cyfrifoldeb chi yw cyflwyno i bob parti ar wahân.

Mae deunyddiau dosbarthu allweddol i Ffilm Cymru yn cynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig i hyn:

i. 2 x Pecyn Sinema Digidol (DCPs) Heb eu Hamgryptio i'w darparu ar yriannau caled neu USBs

ii. Ffeil ProRes 4444 neu XQ Quicktime [.mov]

iii. Ffeil H264 .mov neu .mp4

iv. 1 x Digital Cinema Distribution Master (DCDM)

v. Deunyddiau Mynediad Gwell: disgrifiad sain a chapsiynau agored

Mae'r deunyddiau cyflenwi allweddol i BBC Cymru Wales yn cynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig i hyn:

i. Ffeil ffilm i'w darlledu, ynghyd ag adroddiadau rheoli ansawdd perthnasol
ii. Deunydd cyhoeddusrwydd, gan gynnwys lluniau llonydd o'r ffilm, rhestr gapsiynau ac unrhyw ddeunydd hyrwyddo pellach
iii. Ffurflen Gydymffurfiaeth y Rhaglen
iv. Rhestr Weddilliol
v. Ffurflen OFCOM
vi. Cytundebau Allweddol
vii. Gwaith papur perthnasol pellach wedi'i gwblhau drwy Silvermouse (e.e. bilio, taflen ciwiau cerddoriaeth, amrywiaeth diamond, ffurflen hawlfraint, ffurflen cyfrannwr)

Bydd canllawiau technegol manwl yn cael eu darparu yng nghytundeb y cyllid cynhyrchu a chan eich cysylltiadau cyflenwi.

6. Bydd unrhyw danwariant ar y dyfarniad yn cael ei gadw gan Ffilm Cymru, neu'n cael ei ad-dalu i Ffilm Cymru.

7. Bydd gan Ffilm Cymru a BBC Wales hawliau cymeradwyo yn ystod cynhyrchiad y prosiect a hawl cymeradwyo dros bob toriad o'r ffilm, gan gynnwys cydnabyddiaeth.

8. Fel rhan o’u buddsoddiad bydd BBC Cymru Wales yn derbyn yr hawliau i ddefnyddio a darlledu’r ffilm ar unrhyw rai o’i wasanaethau cyhoeddus yn Nheyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon, Ynysoedd y Sianel ac Ynys Manaw at ddibenion cyfyngedig, ac yng Ngweriniaeth Iwerddon at ddibenion anghyfyngedig. Bydd cyfnod y drwydded o 5 mlynedd yn cychwyn yn dilyn cyfnod dal yn ôl cychwynnol, i ganiatáu i’r ffilmiau gael eu dangos mewn gwyliau ffilm cyn cael eu darlledu. Bydd telerau llawn cytundeb y drwydded yn cael eu nodi yng nghytundeb y cyllid cynhyrchu.

9. Bydd Ffilm Cymru a BBC Cymru Wales yn caffael yr hawl anghyfyngedig i ddefnyddio darnau o'r ffilm, ynghyd â deunyddiau dosbarthu cymeradwy pellach, at ddibenion hyrwyddo ac addysg.

10. Bydd yr hawliau sy’n cael eu hamlinellu isod yn cael eu neilltuo i'r BFI. Bydd yr hawliau hyn ond yn cael eu gweithredu yn dilyn cyfnod o arddangos y prosiect mewn gwyliau a’r cyfnod o hawliau anghyfyngedig yng nghytundeb trwydded BBC Cymru Wales.

    Trwydded barhaol, anghyfyngedig i'r BFI gopïo, atgynhyrchu a/neu arddangos y prosiect: (a) heb fod yn theatrig gan gynnwys, heb gyfyngiad, mewn sefydliadau addysgol (gan gynnwys y BFI Mediatheque) neu ar-lein ar wefannau'r BFI (gan gynnwys BFI Player) ledled y byd; a (b) yr hawl i ddefnyddio clipiau o'r prosiect at ddibenion hyrwyddo mewn perthynas â'r prosiect neu mewn perthynas â hyrwyddo Arian Loteri Genedlaethol y BFI. Bydd y BFI yn berchen ar y deunyddiau dosbarthu a gall ddewis adneuo, cadw a chaniatáu mynediad i ddeunyddiau o'r fath drwy delerau safonol a gaiff eu gosod gan y BFI National Archive.

11. Gofyniad i roi ar waith yr holl yswiriant cynhyrchu arferol a rhaid i Ffilm Cymru a'r BFI gael eu henwi arnynt fel partïon yswiriedig ychwanegol.

12. Y dyddiad cyflwyno a gytunwyd ar gyfer cwblhau eich prosiect a chyflwyno'r deunyddiau cyflenwi gofynnol i ni, i'w gadarnhau yng nghytundeb y cyllid cynhyrchu.

13. Gofyniad i'r Cynhyrchydd lynu wrth a hybu'r gyfres o egwyddorion sydd â'r nod o fynd i'r afael â bwlio, aflonyddu a hiliaeth yn y diwydiannau sgrin sydd wedi'u comisiynu gan y BFI a sefydliadau partner. Mae hyn yn golygu cymryd camau gweithredol i helpu i atal a mynd i'r afael ag aflonyddu a hiliaeth yn y diwydiannau sgrin ac, yn benodol, mewn cyswllt â'r prosiect sy'n cael ei ariannu.

14. Lle bo'n berthnasol i'ch cast a'ch criw, bydd angen i chi fabwysiadu darpariaethau diogelu ar gyfer amddiffyn plant ac oedolion agored i niwed.

15. Gofyniad i sicrhau bod eich ffilm yn cyflawni ardystiad albert BAFTA drwy gwblhau Cyfrifiannell Carbon a Chynllun Gweithredu Carbon, i'w gychwyn yn ystod y cyfnod cyn-gynhyrchu a bydd yn cynnwys gwrthbwyso allyriadau.

16. Ymrwymiad gennych chi i gyflawni yn erbyn eich cynllun cynaliadwyedd. Gall methu â chyflawni yn erbyn yr ymrwymiadau hynny heb achos da effeithio ar eich gallu i dderbyn cyllid prosiect gan Ffilm Cymru yn y dyfodol.

# Telerau Busnes Safonol Ffilm Cymru Wales

Mae’r Telerau Busnes Safonol (“Telerau Safonol”) hyn yn rhan o unrhyw gytundeb ariannu (“Cytundeb Ariannu”) a roddir gan Ffilm Cymru Wales CBC (FfCW) mewn perthynas â’ch prosiect (“Prosiect”) a dylid eu darllen ar y cyd â’r cytundeb hwnnw. Os oes unrhyw wrthdaro rhwng y ddau, y Cytundeb Ariannu fydd yn drech.

1. Gall y gyfraith a rheoliadau Llywodraeth ynglŷn â dosbarthu arian y Loteri Genedlaethol a Llywodraeth Cymru newid. Mae FfCW felly yn cadw’r hawl i adolygu cynlluniau ariannu a/neu newid ei bolisïau, gweithdrefnau a meini prawf asesu.

2. Ni fydd FfCW yn atebol am unrhyw golled, difrod na chostau a gwyd yn uniongyrchol neu’n anuniongyrchol o:
   - Y broses ymgeisio;
   - Penderfyniad FfCW i beidio â darparu dyfarniad i ymgeisydd; neu
   - Ymdrin â chais.

3. Mae penderfyniadau FfCW ar geisiadau yn derfynol. Ni chaiff apeliadau ffurfiol yn erbyn penderfyniadau eu hystyried oni bai bod gan yr ymgeisydd achos da i gredu na lynwyd wrth y gweithdrefnau ar gyfer prosesu’r cais neu eu bod wedi’u cymhwyso yn y fath fodd fel y niweidiwyd canlyniad y cais. Mae Polisi Cwynion FfCW i’w weld ar ein gwefan.

4. Nid oes rheidrwydd ar FfCW i dalu unrhyw arian hyd nes y bydd wedi derbyn copi wedi’i weithredu’n llawn o’r Cytundeb Ariannu a hyd nes y bodlonwyd unrhyw rag-amodau fel a ddiffiniwyd yn y Cytundeb Ariannu.

5. Mae’n ofynnol i FfCW gyhoeddi gwybodaeth am nifer y ceisiadau y mae’n ei dderbyn, a’r dyfarniadau a wneir: bydd y

wybodaeth hon yn cynnwys enw’r ymgeisydd llwyddiannus, swm y dyfarniad, enw’r prosiect a manylion y prosiect.

6. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn rhoi’r hawl i aelodau’r cyhoedd wneud cais am wybodaeth benodol y mae FfCW yn ei dal ar ran ein cyllidwyr. Felly, os byddwch yn dewis gwneud cais i FfCW, gall y wybodaeth a roddwch gael ei rhyddhau o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, yn gyfan neu'n rhannol, oni bai bod sail ddigonol o dan y Ddeddf i’w dal yn ôl, fel yn achos gwybodaeth fasnachol sensitif, er enghraifft.

7. Mae FfCW wedi ymrwymo i wella amrywiaeth a chynwysoldeb y diwydiant sgrin. Gofynnwn i bob tîm sy’n ymgeisio lenwi ffurflenni monitro amrywiaeth ac i bob ymgeisydd llwyddiannus ddatblygu cynlluniau amrywiaeth a chynhwysiant, y maent yn adrodd yn eu herbyn. Gall FfCW gyhoeddi unrhyw ddata amrywiaeth dienw rydych yn ei ddarparu yn flynyddol wedi’i gyfanredu â data ceisiadau a data dyfarniadau eraill; ceir manylion pellach am hyn yn ein Polisi Preifatrwydd. Mae’n ofynnol gan FfCW bod unrhyw gamau a gymerir gan ymgeiswyr i wella amrywiaeth a chynwysoldeb eu gwaith yn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010.

8. Gall FfCW ddal dyfarniad yn ôl neu adennill dyfarniad yn yr amgylchiadau canlynol:

- mae’r cais wedi’i lenwi’n anonest neu â gwybodaeth anghywir neu gamarweiniol am y sefydliad neu’r prosiect boed yn fwriadol neu’n ddamweiniol;
- os yw derbynwyr dyfarniad yn ymddwyn yn anonest neu’n esgeulus er anfantais i’r prosiect

AC

- unrhyw doriad arall fel a ddiffinnir gan y Cytundeb Ariannu.